# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2024

Amser: 09.00 - 09.39

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Heledd Fychan AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm

**Dydd Mercher**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

Gofynnodd Heledd Fychan am ddatganiad gan y Llywodraeth yr wythnos hon ar y sefyllfa yn Hirwaun lle mae nifer o drigolion wedi cael eu cynghori i adael eu heiddo oherwydd bod RAAC yn cael ei ddarganfod. Dywedodd y Trefnydd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu datganiad.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd yn cyhoeddi y bydd balot terfynol Bil Aelod y Senedd hon yn cael ei gynnal ar 24 Ebrill ar ddechrau’r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 19 Mawrth 2024**

- Dadl: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (60 munud)
- ~~Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad ymddiswyddo (30 munud)~~ – *tynnwyd yn ôl*

**Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024**

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (5 munud)
- Bil Seilwaith (Cymru): Hysbysiad Ffurfiol o Gydsyniad Ei Fawrhydi (5 mun)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Seilwaith (Cymru) (15 munud)

Trafododd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer cydnabod ymddiswyddiad y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth, a chytunwyd y byddai'r trefniadau'n cael eu cwblhau yn dilyn trafodaeth bellach rhwng y Llywodraeth a'r Llywydd.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 24 Ebrill 2024 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Perfformiad Dŵr Cymru Welsh Water (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 20 Mawrth:

**Heledd Fychan**

**NNDM8505**

Cynnig bod y Senedd:

1. O'r farn:

a) bod casgliadau cenedlaethol Cymru – sydd o dan ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru – yn perthyn i bawb yng Nghymru;

b) bod angen gwarchod y casgliadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, tra hefyd yn parhau i gael eu defnyddio i ysbrydoli ac ysgogi pobl o bob oed; a

c) bod mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol wedi bod yn llwyddiant diamheuol ers cyflwyno'r polisi yn 2001, a bod y polisi hwn yn un y dylid ei warchod.

2. Nodiadau:

a) rhybuddion gan y sefydliadau bod toriadau cyllidol refeniw a chyfalaf yn peryglu'r casgliadau cenedlaethol, oherwydd llefydd a storfeydd anaddas, a hefyd gostyngiad yn nifer y staff arbenigol sydd bellach yn cael eu cyflogi i ofalu amdanynt;

b) y pryderon y bydd toriadau pellach yn gwaethygu'r sefyllfa; a hefyd

c) cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 am ein casgliadau cenedlaethol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau a ganlyn:

a) comisiynu panel o arbenigwyr i sefydlu beth yw’r perygl i’r casgliadau, a gweithio gyda’r sefydliadau a Llywodraeth Cymru i weithredu cynllun i’w diogelu;

b) gweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru – a’r undebau sy’n cynrychioli’r staff yn y sefydliadau hyn – i sicrhau eu hyfywedd i’r dyfodol; a

c) gweithio gydag Amgueddfa Cymru i gadw’r polisi mynediad am ddim i’n hamgueddfeydd cenedlaethol.

### 3.5 Gweithdrefnau ar gyfer Ymddiswyddiad ac Enwebu Prif Weinidog

Nododd y Pwyllgor Busnes y papur a chytunodd ar ganllawiau i’w rhoi i’r Aelodau ar y weithdrefn ar gyfer enwebu Prif Weinidog newydd.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch amserlen ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried gohebiaeth bellach a gafwyd oddi wrth y Trefnydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am resymau'r Llywodraeth dros gynnig amserlen sy'n cynnwys cyfnod cyflym ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, yn ogystal â'r farn ar yr amserlen a fynegwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Biliau Diwygio.

Ar sail barn y mwyafrif, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen a gynigiwyd gan y Llywodraeth.

Mynegodd Darren Millar ei wrthwynebiad cryf i’r amserlen, ei farn na ddylid cwtogi ar waith craffu ar Fil o’r natur hon, ac y dylai’r Llywodraeth fod wedi cyflwyno’r Bil yn gynt pe bai ganddi bryderon ynghylch yr amser sydd ar gael i roi’r darpariaethau ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad y Senedd 2026.

Nododd y Llywydd ei gwrthwynebiad i'r amserlen arfaethedig a dywedodd, lle mae yna gwestiwn – fel yn yr achos hwn – a yw Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gwaith craffu Cyfnod 1 yw'r man priodol i'r materion hynny gael eu codi. Nododd y byddai'n ysgrifennu at y pwyllgorau perthnasol er mwyn rhannu ei barn ar yr amserlen.

Cwestiynodd y Dirprwy Lywydd, fel Cadeirydd Pwyllgor y Bil Diwygio, agweddau ar gyfiawnhad y Llywodraeth dros fod angen amserlen gyflym a mynegodd hefyd y farn, lle mae yna gwestiwn o ran cymhwysedd, na ddylid cytuno ar amserlenni cyflym.

### 4.2 Amserlen ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.3 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i gynnal gwaith craffu arnynt, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yw 17 Mai 2024 ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, a rhai blaenorol eraill ar y Bil hwn.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr oddi wrth Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau – cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar ddeiseb P-06-1392.

### 5.2 Llythyr oddi wrth Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn gwneud cais am slot cyfarfod arall

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyfarfod fore Mawrth 7 Mai oherwydd ei bod yn Ŵyl y Banc ar 6 Mai.

## 6 Amserlen y Senedd

### 6.1 Dyddiadau Toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau dros dro ar gyfer Hanner Tymor yr Hydref a Thoriad y Nadolig yn 2024.

Nododd Heledd Fychan y gallai amseriad Toriad y Nadolig effeithio ar waith craffu ar y Gyllideb pe bai Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb ddrafft yn hwyr eto, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Nododd y Pwyllgor Busnes y potensial ar gyfer gwneud addasiadau yn ddiweddarach, pe bai angen, mewn ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â’r amserlen ar gyfer y Gyllideb eleni.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor ar ddyddiadau toriad dros dro ar gyfer Hanner Tymor y Gwanwyn a Thoriad y Pasg yn 2025.

## 7 Trefniadau Cyflwyno

### 7.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn, cwestiynau ysgrifenedig a gwelliannau i Filiau yn ystod toriad y Pasg a gwyliau banc priodol. At hynny, nododd y Pwyllgor fod y Gweinidogion y cyfeiriwyd atynt fel rhai a oedd yn ateb Cwestiynau Llafar ar ôl toriad y Pasg yn destun newid yn sgil penodi Llywodraeth newydd.

## 8 Unrhyw fusnes arall

### Cyfnod 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Hysbysodd y Trefnydd y Rheolwyr Busnes am fwriad y Llywodraeth i drefnu trafodion Cyfnod 4 ar y Bil ddydd Mercher 8 Mai.